

# CEISIO FFORTIWN YN Y DDINAS BELL

## Y Cardis a aeth i werthu llaeth yn Llundain

Ail-greu profiadau pobol aeth o Geredigion i Lundain yn hanner cynta'r ganrif hon i geisio ffortiwn yn gwerthu llaeth y bydd cyfres ddrama deledu, **Y Palmant Aur**

**STORI: LYNNE REYNOLDS**

Gadael eu milltir sgwâr ar ddiwedd y ganrif ddiwetha' yn y gobaith o wneud eu ffortiwn yn Llundain ... mae hanes y Cardis a aeth i Lundain i werthu llaeth wedi mynd yn rhan o chwedloniaeth ein hoes ni. Tua deunaw mis yn ôl y penderfynodd Manon Rhys a Richard Lewis, ill dau â'u gwreiddiau yn Sir Aberteifi, fod potensial am ddrama deledu yn hanes y bobol yma.

Roedd yna ymadawiad gweddol gyson trwy'r 20au, y 30au a'r 40au, gyda phobol yn gadael eu ffermydd bychain a'u teuluoedd mawr am eu bod yn methu dal ben llinyn ynghyd.

"Fel arfer, un aelod o'r teulu oedd yn mynd i Lundain ar y cychwyn, gydag ambell i frawd, chwaer, neu nai yn dilyn, neu'n cael eu gwahodd yn ddiweddarach," meddai Manon Rhys, oedd wedi treulio tipyn amser yn ymchwilio i'r pwnc cyn dechrau ar y gwaith ysgrifennu. "Yn aml, cadw siop oedd y Cymry, ond roedd y *dairies* yn bwysig iawn iddyn nhw hefyd. Roedden nhw fel petai yn trosglwyddo eu gwaith yng Nghymru i Loegr, yn gwneud yr hyn roedden nhw yn y wlad, yn y dre'.

Mewn gwirionedd, nid rhai'n mynd i Lundain 'i wneud eu ffortiwn' oedd y rhan fwya' o'r Cymry, ond yn hytrach bobol oedd yn barod i weithio'n galed, er bod rhai, mae'n siwr, wedi gwneud cryn dipyn o arian. Doedd dim llawer o ddewis ond i fynd i Lundain gan fod gwaith mor brin yn ôl yng Nghymru. Mae'n siwr fod pawb yn ystod y cyfnod yn adnabod rhywun a oedd wedi mynd i weithio yn y brifddinas, nid yn unig i werthu llaeth, ond merched yn mynd i gadw tai, i warchod plant, ac i ddysgu crefftau fel gwnïo a gwneud a gwerthu hetiau.

Roedd yn rhaid i'r ddinas gael llaeth, ac yn y dechrau, roedd y Cymry estron yn llythrennol yn cynhyrchu eu llaeth ar eu drws ffrynt, neu eu drws cefn, wrth gadw dwy fuwch yn yr iard gefn. Yn aml, llogi'r fuwch oedd y ffasiwn, ac yna'n llogi un arall unwaith i un fynd yn hesb. Felly, roedd pob dim yn cael ei wneud ar garreg y drws - y godro a chynhyrchu'r llaeth, y caws a'r menyn.

Wrth i'r diwydiant dyfu, roedd pob gwerthwr llaeth yn penderfynu ar eu *patch* eu hunain, neu eu 'wâc laeth'. Ar y cychwyn, whilber oedd cariwr y llaeth, ac yna fe ddaeth y cart a'r ceffyl yn boblogaidd. Roedd y llaeth yn cael ei gadw mewn jygiau enfawr, ac yna wrth i'r cart fynd o gwmpas y strydoedd, roedd y cwsmeriaid yn dod â'u jygiau hwythau, a oedd yn dal tua pheint, i'w llenwi.

Doedd bywyd ddim yn hawdd yn Llundain - yr oedd yr un mor galed ag yng Nghymru - ond o leia' roedd yna waith. Bywyd blinedig oedd, yn codi am 4am, yna godro, ac ar ôl y rownd laeth, treulio'r diwrnod yn y siop tan yn hwyr y nos.

Wrth iddi ddod ar draws mwy a mwy o hanes y cyfnod, un peth drawodd Manon Rhys oedd fod y Cymry yn Llundain wedi cadw eu hiaith a'u diwylliant er eu bod yn byw a bod yn Llundain. Roedd y plant i gyd yn cael eu codi ar aelwydydd Cymraeg, heb fod yn wahanol i'w teulu yn ôl yng Nghymru, ac yn ogystal â'r iaith, roedd nifer wedi cadw tafodiaith Sir Aberteifi, er iddynt siarad Saesneg fel *Cockneys*.

Un rheswm dros y ffenomenon hwn oedd y capel a'i ddylanwad ar gymdeithas yr oes. Roedd y capeli i Gymry Llundain yn ganolog i'r gymdeithas ac i'r gymuned wrth iddyn nhw olygu mwy na seiat a chymanfa ganu, ond eisteddfodau cyson, nosweithiau llawen a nifer o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, am flynyddoedd, roedd pobol ifanc Cymraeg y ddinas yn cadw eu hiaith a fyddai efallai wedi marw fel arall.

Ar ddechrau'r ganrif, roedd mynd i Lundain yn drip diwrnod a hanner, a doedd neb yn symud o gwmpas mor aml â nawr, felly roedd y cymunedau gwledig wedi cadw eu hunaniaeth Gymraeg yn weddol hawdd. Nid penderfyniad gwleidyddol, ond ffordd o fyw. "Rwy'n cofio pobol yn dychwelyd yn y 50au, y 60au a'r 70au ac yn siarad yr un Cymraeg â phan oedden nhw yn byw yn Sir Aberteifi," meddai Manon Rhys. "Ac rwy'n cofio cyfnither i mi a fagwyd yn Llundain. I gadw ei hiaith, roedd ei mam a'i thad yn esgus nad oedden nhw yn medru siarad Saesneg! Mae'n siwr fod sawl teulu wedi trio'r tric hwn i gadw'r Gymraeg yn fyw ar yr aelwyd. Fe fyddai wedi bod yn ymdrech, ond fe lwyddodd llawer."

Roedd yna berthynas agos rhwng y Cymry a'r Iddewon yn Llundain, efallai oherwydd y cydymdeimlad rhwng y ddwy genedl mewn gwlad a diwylliant estron, ac mae cymeriad Isaac yr Iddew (Anthony Morse) yn **Y Palmant Aur** yn dangos hyn yn dda. Ond newid mae'r berthynas erbyn 1931 yn yr ail gyfres, wrth i ddatblygiadau yn Ewrop effeithio ar bawb yn Llundain a Chymru.

Wrth ymchwilio'r cyfnod, roedd papur newydd Cymry Llundain, **Y Ddolen**, wedi chwarae rhan bwysig dros ben, wrth i'r cyhoeddiad groniclo priodasau a digwyddiadau cymdeithasol y gymuned Gymraeg.

Roedd yn rhaid hefyd cael straeon cryfion ar gyfer y sgript, ac mae'r ddrama'n llawn o'r rhain, gan gynnwys priodasau, marwolaethau a charwriaethau. Mae hen arferion yr oes yn ymddangos yn glir yn y ddrama, gyda'r olygfa gynta' oll yn dangos un o hen arferion Cymry Llundain.

Wrth i'r ddrama agor gyda marwolaeth chwaer Ifan ac Isaac yn Llundain, mae'r corff yn cael ei gludo'n ôl i Gymru ar gyfer y cynhebrwng ar y trên o Paddington. Yr arferiad oedd i'r Cymry gasglu ar blatfform yr orsaf i gynnal gwasanaeth angladd ac i ganu'r emyn 'O Fryniau Caersalem ...'. Roedd hyn yn dipyn o ddefod i Gymry Llundain, wrth i frodorion y ddinas wrando heb fod yn deall beth oedd yn mynd ymlaen. A chawn weld fod rhagrith yn rhemp yn Llundain ac yn Sir Aberteifi wrth i'r gweinidog Luther Lewis (Ifan Huw Dafydd), sydd bellach wedi troi ei gefn, *á la* Dewi Emrys, ar gonfensiwn, ac yn byw fel trempyn, gael ei gadw allan o'r capel. Yn yr un modd yn ôl yng Nghymru, mae merch ifanc yn cael ei thaflu allan o'r seiat am ei bod yn feichiog ...

Roedd bywyd yn galed yn y ddinas fawr ddrwg, gyda'r cymeriadau a'r straeon yn rhoi darlun gweddol gywir o fywyd yn y 20au. Mae portread o bob math o Gymry, yr amaethwyr ym Mrynarfor, yr 'arloeswyr' yn Llundain sydd wedi brwydro i gadw eu Cymreictod a'r haen arall o'r gymdeithas Gymraeg, y crach fel Lady Orme (Sue Roderick) sydd wedi 'colli' ei Chymraeg.

Daeth tro ar fyd wrth i'r llaethdai mawrion brynu hawliau'r rowndiau llaeth o'r 30au ymlaen, ac felly daeth dyddiau'r rownd deuluol i ben. O'r 50au ymlaen, roedd y Cymry a symudodd i Lundain i wneud eu ffortiwn yn dilyn trywydd pur wahanol, drwy fynd i'r coleg ac wedyn mynd i ddysgu, neu weithio yn y byd ariannol neu'r cyfryngau.